



Dydd Mercher 14 Mehefin 2023

Trefnir gan

Noddir gan



esure

# Canllaw cyflym i gymryd rhan

Mae Brake's Kids Walk yn daith gerdded fer, dan oruchwyliaeth, sy'n cynnwys miloedd o blant yn cerdded ar yr un pryd i hybu buddion iechyd ac arbed y blaned cerdded.

I gael rhagor o fanylion am sut i gynllunio eich taith gerdded, ewch i [www.brake.org.uk/kidswalk](http://www.brake.org.uk/kidswalk)

## Cynlluniwch eich taith gerdded

Cynlluniwch lwybr sydd tua 500 metr o hyd, gan ddechrau a gorffen wrth gatau'r ysgol. Sicrhewch fod y llwybr yn dilyn strydoedd tawel gyda llwybrau troed diogel a manau croesi. Bydd angen i chi gynnal asesiad risg a chael help digon o oedolion sy'n gwirfoddoli. Efallai y bydd eich heddlu neu wasanaeth tân lleol yn gallu helpu.

## Dywedwch wrth bobl amdano

Dechreuwch siarad â phlant a rhieni a'r cyfryngau lleol am yr hyn y byddwch chi'n ei wneud. Gosodwch y posteri yn eich pecyn gweithredu. Lledaenwch y gair ar gyfryngau cymdeithasol.

Gofynnwch i rieni a gofawyr a siopau a busnesau lleol ddod i'ch gweld a'ch cefnogi yn ystod eich taith gerdded.

## Ymgyrchwch dros deithiau diogel ac iach i bob plentyn

Cyflwynwch fanifesto'r Plant ar gyfer teithiau diogel ac iach i'ch awdurdod lleol a'ch AS a gofynnwch iddynt greu manau diogel i'ch plant gerdded neu reidio. Codwch ymwybyddiaeth o beryglon ffyrdd lleol hefyd.

## Siaradwch am

## ddiogelwch ar y ffyrdd yn y dosbarth

Mae eich pecyn gweithredu yn llawn adnoddau difyr i ddysgu negeseuon pwysig am ddiogelwch ar y ffyrdd, gan gynnwys gwasanaethau, cynlluniau gwersi, posteri, gweithgareddau a thafenni lliwio. Helpwch y plant i ddeall pam fod traffig araf ac aer glân yn bwysig ar gyfer teithiau diogel ac iach, a sut y gallant ofyn i oedolion eu cadw'n ddiogel ger ffyrdd.

## Codi arian ar gyfer Brake

Codwch arian i Brake a chefnogwch ein gwaith hanfodol yn gofalu am ddiodefwr ffyrdd ac ymgyrchu dros ffyrdd diogel. Gallech drefnu Diwrnod Gwisgwch Eich Streipiau, neu gynnal digwyddiad noddedig. Mae rhagor o wybodaeth am sut i godi arian a ffurflenni noddi yn eich pecyn gweithredu.

## Dechreuwch gerdded

Gwnewch eich paratodau terfynol ac atgoffwch bawb sy'n helpu beth fyddant yn ei wneud a phryd.

Gobeithiwn y byddwch yn cael llawer o hwyl yn cymryd rhan yn Brake's Kids Walk, ond cofiwch fod yn rhaid i ddiogelwch ddod yn gyntaf bob amser.

## Dywedwch wrthym beth wnaethoch chi

Rhannwch eich lluniau a'ch straeon ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio **#brakeskidswalk** neu e-bostiwch [kidswalk@brake.org.uk](mailto:kidswalk@brake.org.uk).

Darganfyddwch fwy yn [www.brake.org.uk/kidswalk](http://www.brake.org.uk/kidswalk)



AARDMAN, SHAUN THE SHEEP AND SHAUN'S IMAGE ARE TRADE MARKS OF AARDMAN ANIMATIONS LIMITED 2023. ALL RIGHTS RESERVED.

© BRAKE 2023

